Mawrth 2008

Ein canllawiau MONEYmadeclear™ – yma i'ch helpu

Mae'r canllaw hwn yn rhan o'n cyfres Cynilo a buddsoddi.

Ar gael gan ein Llinell Gymorth i Ddefnyddwyr neu drwy'n gwefan

www.moneymadeclear.fsa.gov.uk

Dim gwerthu. Dim jargon. Dim ond y ffeithiau.

Os hoffech chi gael y canllaw hwn ar ffurf Braille, print bras neu sain, ffoniwch ein Llinell Gymorth i Ddefnyddwyr ar 0845 606 1234 neu Minicom/Ffôn testun ar 08457 300 104 (gall cyfraddau'r galwadau amrywio).

I'n helpu i gynnal ein gwasanaeth a'i wella, gall galwadau gael eu recordio neu eu monitro.

Getting Financial Advice – March 2008

© The Financial Services Authority, Mawrth 2008. Cyfeirnod yr FSA: COMS0004aW

Dim gwerthu. Dim jargon.

Dim ond y ffeithiau am gael cyngor ariannol.

MONEYmadeclear™

oddi wrth gorff gwarchod ariannol y DU (FSA)

Drwy ein hamrywiol ganllawiau MONEYmadeclear,™ rydyn ni wedi dileu'r jargon a'r cyfan a gewch chi yw'r ffeithiau am gynhyrchion a gwasanaethau ariannol, gan eich helpu i wneud penderfyniad gwybodus.

Dim ond y ffeithiau am gael cyngor ariannol.

FSA®

Y Financial Services Authority (FSA) yw corff gwarchod ariannol y DU a sefydlwyd gan y llywodraeth i reoleiddio gwasanaethau ariannol a diogelu'ch hawliau.

Cofiwch, gwybodaeth gyffredinol yw hon, sy'n wahanol i sicrhau cyngor ariannol neu gyngor proffesiynol arall. Am gyngor yn seiliedig ar eich amgylchiadau, siaradwch ag ymgynghorydd proffesiynol.

Mae'r canllaw hwn i chi

Os hoffech chi

wybod beth yw ystyr cyngor ariannol a ble i'w gael.

Mae'n ymdrin â chael cyngor ariannol ac yn esbonio:

- y dewisiadau gwahanol o ran cyngor sydd ar gael;
- sut i baratoi eich hun cyn gweld cynghorydd; a
- beth allwch chi ei ddisgwyl oddi wrth gynghorydd ariannol.

Hefyd mae'n ateb rhai o'r cwestiynau a all fod gennych chi.

Cynnwys

Beth yw cyngor ariannol? 2

Pethau allweddol i feddwl amdanyn nhw 6

Gwybodaeth allweddol mae'n rhaid i gynghorydd ei rhoi i chi 12

Atebion i'ch cwestiynau 15

Y camau nesaf 17

Esbonio'r jargon 19

Cysylltiadau defnyddiol 22

Beth yw cyngor ariannol?

Cyngor ariannol yw pan fydd cynghorydd proffesiynol yn asesu'ch amgylchiadau personol ac yn argymell cynhyrchion ariannol sy'n addas i chi. Yna bydd y cynghorydd yn rhoi argymhelliad i chi'n ysgrifenedig.

Er mwyn helpu cynghorwyr i roi cyngor da i chi, bydd rhaid i chi roi rhywfaint o wybodaeth fanwl iddyn nhw am eich sefyllfa ariannol bersonol a bod yn fodlon ateb rhai cwestiynau am eich nodau ariannol - gweler tudalen 8.

Gweler *Esbonio'r jargon* ar dudalen 19 am esboniad o rai o'r termau y gallech ddod ar eu traws.

Pwy sy'n gallu rhoi cyngor ariannol?

Rhaid i ffyrmiau sy'n rhoi cyngor ariannol ar rai cynhyrchion – gweler tudalen 4 – gael eu rheoleiddio gennym ni, neu fod yn asiant ffyrm rydym yn ei rheoleiddio. Rhaid iddyn nhw fodloni rhai safonau penodol rydym yn eu gosod.

Os bydd pethau'n mynd o chwith gyda ffyrm rydym yn ei rheoleiddio, ar yr amod bod rhai amodau penodol wedi eu bodloni, fel arfer byddwch chi'n cael troi at gynlluniau cwyno ac iawndal. Yn achos ffyrmiau sydd wedi eu seilio tu allan i'r DU gyda changhennau yn y DU gweler tudalen 5.

Os byddwch yn delio â ffyrm sydd heb ei rheoleiddio gan yr FSA mae'n bosibl na fyddwch yn cael defnyddio'r cynlluniau hyn - gweler tudalen 18.

Ble mae cael cyngor ariannol?

Mae cyngor ariannol ar gael o ystod o ffynonellau, gan gynnwys:

- banciau a chymdeithasau adeiladu;
- cwmnïau yswiriant;
- cynghorwyr ariannol;
- broceriaid morgeisi; a
- broceriaid stoc.

Hyd yn oed os bydd eich teulu neu eich ffrindiau'n argymell cynghorydd, siaradwch â dau neu dri cyn dewis. I gael cyngor ar ddod o hyd i gynghorydd – gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

Gwnewch yn siŵr bob tro ein bod ni'n rheoleiddio ffyrm cyn gwneud busnes gyda nhw. Gallwch chi wneud hyn drwy fynd i adran **Gwiriwch ein Cofrestr** ar ein gwefan Moneymadeclear neu drwy ffonio ein Llinell Gymorth i Ddefnyddwyr – gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

Fel gydag unrhyw beth a brynwch, er mwyn cael cyngor sy'n briodol i chi am y pris priodol bydd angen i chi siopa o gwmpas. I gael manylion cynghorwyr yn eich ardal chi, gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyngor ariannol a gwybodaeth gyffredinol am gynhyrchion ariannol?

Mae gwahaniaeth rhwng cael cyngor am fanteision ac anfanteision prynu cynnyrch penodol a dim ond cael gwybodaeth.

Nid cael cyngor ariannol ydych chi pan fyddwch chi'n casglu gwybodaeth 'barod'. Gwybodaeth gyffredinol i bawb am gynhyrchion yw hynny, beth bynnag yw'r amgylchiadau personol.

Weithiau bydd ffyrmiau'n gofyn cwestiynau i chi i gyfyngu'r math o gynhyrchion maen nhw'n rhoi gwybodaeth i chi yn eu cylch, ond rhaid i chi eich hun ddewis beth sy'n diwallu'ch nodau – fyddwch chi ddim yn cael cyngor ac argymhelliad am gynnyrch.

Gallwch gael gwybodaeth o amrediad o ffynonellau gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, papurau newydd, cylchgronau neu ar wefannau.

Rydym yn rheoleiddio cynghorwyr ariannol sy'n rhoi cyngor am y cynhyrchion dilynol

Buddsoddiadau gan gynnwys

- Yswiriant bywyd
- Gwaddolion
- Pensiynau personol gan gynnwys pensiynau budd-ddeiliaid. Ond nid ydym yn rheoleiddio pensiynau galwedigaethol. I gael gwybodaeth am bensiynau galwedigaethol, gweler *Cysylltiadau defnyddiol*
- Cynlluniau cyd-fuddsoddi, fel ymddiriedolaethau uned
- Cyfranddaliadau
- Cyfrifon Cynilion Unigol (ISAs)
- Cynlluniau Ecwiti Personol (PEPs)
- Rhai cynhyrchion incwm-uchel (fel arfer buddsoddiadau sy'n seiliedig ar gyfranddaliadau ffyrmiau bancio, yswiriant neu ffyrmiau rheoli buddsoddiadau)

Y mwyafrif o fathau o forgais ac eithrio

- Morgeisi ail daliad
- Morgeisi lle mae llai na 40% o'r eiddo mae'r benthyciad wedi ei sicrhau arno yn cael ei ddefnyddio'n annedd gan y benthyciwr neu gan deulu uniongyrchol y benthyciwr. Er enghraifft, nid yw morgeisi prynu-i-osod yn cael eu rheoleiddio gennym

Y mwyafrif o fathau o yswiriant cyffredinol gan gynnwys

- Yswiriant moduro
- Yswiriant teithio. Ond nid ydym yn rheoleiddio yswiriant teithio pan fyddwch chi'n ei brynu gyda gwyliau neu daith awyren neu pan fydd y sawl sy'n gwerthu'r yswiriant yn trefnu'r teithio hefyd
- Yswiriant ar gyfer eich cartref a'i gynnwys
- Yswiriant meddygol preifat
- Gwarantau estynedig. Ond nid ydym yn rheoleiddio gwarantau estynedig pan y sawl sy'n gwerthu'r yswiriant sy'n gwerthu'r nwyddau
- Diogelu taliadau gan gynnwys yswiriant diogelu taliadau morgais

Y mwyafrif o fathau o yswiriant diogelwch pur gan gynnwys

- Yswiriant salwch enbydus
- Yswiriant tymor neu yswiriant bywyd

Yr hyn nad ydym yn ei reoleiddio

Er ein bod yn rheoleiddio'r rhan fwyaf o fathau o ffyrmiau sy'n gwerthu gwasanaethau ariannol, nid ydym yn ymdrin â gwerthu benthyciadau, cardiau credyd, benthyciadau ail forgais, cynlluniau pensiwn galwedigaethol na gwasanaethau bancio o ddydd i ddydd. Y Swyddfa Masnachu Teg (OFT), Y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Bwrdd Safonau Cod Bancio (BCSB), yn y drefn honno, sy'n ymdrin â'r rhain.

Y rhyngrwyd

Gallai cynigion sydd ar y rhyngrwyd ddod oddi wrth unrhyw un neu o unrhyw le, gan gynnwys y rheini am forgeisi, yswiriant cyffredinol neu fuddsoddiadau. Mae'n bwysig ichi sicrhau bod ffyrm sy'n cynnig y cynhyrchion hyn yn cael ei rheoleiddio gennym ni cyn i chi roi unrhyw arian neu fanylion personol iddi.

Ffyrmiau heb eu seilio yn y DU

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o ffyrmiau gwasanaethau ariannol gael eu hawdurdodi gennym ni cyn y gallant gynnal busnes yn y DU. Byddwn hefyd yn rheoleiddio ffyrmiau yn yr EEA (Ardal Economaidd Ewropeaidd) os ydyn nhw'n gweithredu yn y DU.

Fodd bynnag, os ydych yn ystyried gwneud busnes neu eisoes yn gwneud busnes gyda ffyrm sydd wedi ei hawdurdodi mewn gwladwriaeth arall yn yr EEA, dylech ofyn am wybodaeth bellach gan y ffyrm neu ei changen yn y DU am ei threfniadau ar gyfer cwynion ac iawndal. Gall y sefyllfa fod yn wahanol i ffyrm sy'n cael ei hawdurdodi yn y DU.

Pwyntiau allweddol

- Cyngor ariannol yw cyngor sy'n seiliedig ar eich anghenion a'ch amgylchiadau personol chi.
- I helpu'r cynghorydd i roi cyngor da i chi, byddwch yn barod i ateb rhai cwestiynau personol.
- Mynnwch ddelio â ffyrm sy'n cael ei rheoleiddio gennym ni bob tro.

Pethau allweddol i feddwl amdanyn nhw

Mae nifer o bethau i'w hystyried cyn cael cyngor ariannol, er enghraifft, ai cyngor ariannol neu wybodaeth am gynhyrchion ariannol sydd ei heisiau hangen arnoch? Mae gwahanol gynghorwyr yn cynnig gwahanol lefelau o wasanaeth ac ystodau gwahanol o gynhyrchion. Rydym yn esbonio hynny yma gyda rhai cwestiynau i'w gofyn i chi'ch hun ac i gynghorydd.

Oes angen cyngor ariannol arnoch chi?

Gall cynghorydd ariannol roi cyngor i chi am reoli'ch arian yn gyffredinol, neu eich helpu gydag anghenion neu nodau penodol.

Efallai y penderfynwch fod eisiau cyngor ariannol arnoch, er enghraifft, os ydych chi am ddechrau cynilo am bensiwn, yn ystyried diogelu'ch teulu rhag damwain, salwch neu farwolaeth, os byddwch yn etifeddu swm o arian, neu'n nesáu at ymddeol ac eisiau help i droi eich cronfa bensiwn yn incwm ar gyfer eich ymddeoliad.

Does dim rhaid i chi gymryd cyngor wrth brynu cynnyrch ariannol.

Ond os byddwch yn gwneud hynny ac wedyn yn darganfod nad oedd y cynnych yn addas, efallai y bydd gennych chi sail dros wneud cwyn a chael iawndal. Os na chymerwch gyngor ariannol, bydd gennych lai o seiliau dros wneud cwyn.

Y math o wasanaeth sydd ar gael

Penderfynwch a ydych eisiau prynu cynnyrch penodol neu a ydych chi am i'r cynghorydd roi gwasanaeth parhaus i chi. Gwnewch yn siŵr bod y gwasanaeth mae'r ffyrm yn ei gynnig yn ateb eich anghenion. Gall ffyrmiau naill ai roi cyngor neu ddarparu gwybodaeth am gynhyrchion ariannol neu gynnig cyngor a gwybodaeth am gynhyrchion fel ei gilydd.

Gwnewch yn siŵr y gall y cynghorydd gynnig cyngor am gynhyrchion ariannol mae gennych ddiddordeb ynddyn nhw. Mae rhai ffyrmiau'n cynnig cyngor am forgeisi, yswiriant a buddsoddiadau, ac eraill yn cynnig cyngor ar un neu ddau o'r pethau hyn yn unig. Ac mae gan rai ffyrmiau feysydd arbenigedd penodol, er enghraifft, ym maes cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Y cynhyrchion y gall cynghorydd eu cynnig i chi

Bydd yr hyn y bydd cynghorwyr yn ei gynnig yn amrywio. Er enghraifft:

- mae rhai'n cynnig cyngor dim ond am gynhyrchion gan y ffyrm maen nhw'n gweithio iddi neu ffyrmiau o fewn y grŵp hwnnw o gwmnïau;
- mae rhai'n cynnig cyngor am gynhyrchion gan nifer cyfyngedig o ddarparwyr; ac
- mae rhai'n cynnig cyngor am gynhyrchion gan y farchnad gyfan.

Gall cwmpas y cyngor y mae ffyrm yn ei gynnig amrywio rhwng gwahanol gynhyrchion. Er enghraifft, efallai y bydd ffyrm yn cynnig morgeisi gan y farchnad gyfan, ond buddsoddiadau gan nifer cyfyngedig o ddarparwyr. Felly, meddyliwch am yr holl gynhyrchion y mae ei hangen arnoch a gofynnwch i gynghorwyr beth maen nhw'n ei gynnig.

Faint fydd yn rhaid i chi ei dalu

Bydd yn rhaid i chi dalu am y cyngor a gewch yn ogystal â thaliadau am y cynhyrchion y byddwch yn eu prynu.

Mae'n bosibl hefyd y bydd y cynghorydd yn cynnig gwasanaethau eraill am gost ychwanegol. Er enghraifft, gwasanaeth adolygu parhaus, neu os ydych yn cychwyn buddsoddiad, defnyddio gwasanaeth gweinyddu ar-lein sy'n cadw rhai o'ch buddsoddiadau neu'r cyfan . Gelwir hynny'n blatfform neu'n lapiad.

Efallai na fydd yn glir faint yw costau beth, felly, gofynnwch i'r cynghorydd esbonio.

Gallwch dalu am gyngor ariannol drwy ddulliau gwahanol. Y prif ddulliau yw:

- **drwy ffi –** fel arfer byddwch yn talu hyn yn uniongyrchol i'r cynghorydd; neu
- **drwy gomisiwn –** caiff hwn ei dalu i'r cynghorydd yn anuniongyrchol o'r arian rydych yn ei fuddsoddi neu'n ei wario ar y cynnyrch ariannol rydych yn ei brynu neu o'r adenillion ar y cynnyrch; neu
- **drwy gyfuniad o ffi a chomisiwn.**

Efallai na fydd rhai cynghorwyr yn cynnig dewis i chi sut i dalu, felly, holwch.

Gofynnwch i'r cynghorydd esbonio:

- cost y cyngor
- cost y cynhyrchion ariannol; a
- pha ddewisiadau sydd ar gael o ran talu.

Os byddwch am dalu drwy gomisiwn, gofynnwch i'ch cynghorydd sut y bydd yn cael ei gyfrifo. Er enghraifft, ai taliad unwaith ac am byth fydd hwn wrth i chi brynu'r cynnyrch? Ynteu a fyddwch yn talu swm bob blwyddyn tra byddwch yn dal y cynnyrch? Ynteu'r ddau?

Os cewch gyngor am fuddsoddi, gofynnwch i'ch cynghorydd a yw'r costau'n cynnwys adolygiad o'ch buddsoddiadau o bryd i'w gilydd, ynteu a yw'n rhaid i chi dalu am y gwasanaeth hwnnw ar wahân.

Defnyddiwch yr wybodaeth gan wahanol ffyrmiau i'ch helpu i siopa o gwmpas a chymharu'r hyn sy'n cael ei gynnig.

Paratoi i gwrdd â chynghorydd

Byddwch yn cael mwy o'ch cyfarfod gyda chynghorydd os paratowch ymlaen llaw. Defnyddiwch ein rhestr gyfeirio isod i'ch helpu.

1. Gwnewch eich nodau ariannol yn glir

Ceisiwch fod yn glir am eich nodau ariannol.

Er enghraifft, ydych chi eisiau:

- diogelu'ch incwm rhag ofn i chi fynd yn sâl?
- benthyca i brynu cartref?
- cynilo ar gyfer eich ymddeoliad?
- cynilo ar gyfer rhywbeth arbennig?

Gall y **Gwiriad iechyd ariannol** cyfrinachol ar-lein ar ein gwefan Moneymadeclear eich helpu i nodi'ch anghenion ariannol – gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

2. Ystyriwch sut rydych yn teimlo ynglŷn â risg buddsoddi

Os cynilo neu fuddsoddi yw'ch nod:

- ydy hi'n bwysig na fydd risg colli unrhyw ran o'r arian fyddwch yn ei fuddsoddi?
- ydych chi'n abl i dderbyn risg colled bosibl, os yw'n golygu y gallech gael adenillion uwch, ac ydych chi'n fodlon gwneud hynny?

Mae ein canllaw i **Cynilo a buddsoddi** yn esbonio risgiau a manteision buddsoddi – gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

3. Trefnwch fod yr wybodaeth bersonol y gall fod angen i chi ei rhoi i'r cynghorydd ar gael

Bydd y cynghorydd yn gofyn rhai cwestiynau i chi am eich incwm, benthyca, cynilion a sut fyddech chi'n ymdopi â digwyddiad annisgwyl, fel methu â gweithio.

Bydd o gymorth os trefnwch fod gwybodaeth bersonol wrth law i helpu'r cynghorydd i wneud asesiad ac argymhelliad. Er enghraifft, trefnwch fod gennych fanylion am:

- eich partner, eich plant neu ddibynyddion eraill;
- eich statws cyflogaeth, faint rydych yn ei ennill, y gyfradd treth incwm rydych yn ei thalu; a'r
- cynhyrchion ariannol sydd gennych eisoes.

Ymweld â chynghorydd

Bydd y cynghorydd yn gofyn cwestiynau i chi am eich amgylchiadau ariannol, eich nodau ac a ydych yn fodlon derbyn unrhyw golled ariannol neu'n fodlon gwneud hynny.

Ar sail eich atebion, bydd y cynghorydd yn argymell cynhyrchion sy'n addas i chi. Ystyr hyn yw y dylai'r cynhyrchion weddu i'ch amgylchiadau ariannol personol chi. Er enghraifft, dylai cynhyrchion sy'n cael eu hargymell:

- beidio â chostio mwy nag y gallwch ei fforddio;
- adlewyrchu'r cyfnod pan allwch glymu'ch arian;
- cyd-fynd â'ch agwedd at risg; a
- chymryd i ystyriaeth eich sefyllfa dreth.

Hefyd dylai'r cynhyrchion eich helpu i gyrraedd eich nodau ariannol. Er enghraifft, os dywedwch wrth y cynghorydd fod angen incwm arnoch o'ch buddsoddiad, dylai'r cynnyrch ddarparu hynny.

Defnyddiwch y cynghorion sy'n dilyn i'ch helpu wrth gwrdd â chynghorydd:

- cymerwch nodiadau fel na fydd yn rhaid i chi ddibynnu ar eich cof yn ddiweddarach;
- holwch am unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall;
- peidiwch â llofnodi dim oni fyddwch wedi ei ddarllen a'i ddeall;
- peidiwch â theimlo dan bwysau i gytuno i ddim byd yn y fan a'r lle.

Rhai cwestiynau i'w gofyn am gynhyrchion y bydd cynghorydd yn eu hargymell

- Ydy'r cynnyrch hwn yn ateb fy anghenion i?
- Beth yw'r risgiau?
- Faint yw'r taliadau a sut fyddan nhw'n cael eu talu?
- Sut mae'r taliadau'n cymharu â'r taliadau am gynhyrchion tebyg?
- Ai dyma'r fargen orau i mi?
- Os oes taliadau rheolaidd, beth sy'n digwydd os bydda i'n methu eu talu?
- Os bydda i'n cychwyn buddsoddiad, beth sy'n digwydd os bydd arna i angen fy arian ynghynt na'r disgwyl? Oes unrhyw gosbau?
- Beth yw'r sefyllfa o ran treth?

Pwyntiau allweddol

- Paratowch arr gyfer eich cyfarfod gyda chynghorydd drwy fod yn glir beth yw'ch nodau ariannol.
- Os oes eisiau cyngor arnoch, gwnewch yn siŵr bod y ffyrm yn cynnig y gwasanaeth hwnnw.
- Chwiliwch am ffyrm sy'n gallu rhoi i chi'r gwasanaeth a'r ystod o gynhyrchion mae arnoch eu hangen.
- Gofynnwch faint fydd y cyngor yn ei gostio i chi a sut mae'n rhaid i chi dalu.
- Gwnewch yn siwr eich bod yn gofyn cwestiynau am unrhyw gynhyrchion sy'n cael eu hargymell i sicrhau eu bod nhw'n briodol i chi.
- Os na chymerwch gyngor ariannol ac os bydd cynnyrch rydych yn ei brynu'n anaddas i chi yn y pen draw, bydd gennych lai o sail dros gwyno.

Gwybodaeth allweddol y mae'n rhaid i gynghorydd ei rhoi i chi

Pan ewch i weld cynghorydd ariannol neu rywun sy'n gwerthu cynnyrch ariannol, byddwch yn cael dau ddarn allweddol o wybodaeth:

- **gwybodaeth am y ffyrm; a**
- **gwybodaeth am unrhyw gynhyrchion maen nhw'n eu hargymell.**

Gwybodaeth am y ffyrm

P'un a fyddwch yn cael cyngor am forgeisi, yswiriant neu fuddsoddiadau, rhaid i'r mwyafrif o ffyrmiau rydym ni'n eu rheoleiddio roi gwybodaeth i chi am eu gwasanaethau, a rhaid i bob ffyrm roi gwybodaeth i chi am ei chostau.

Mae hon yn wybodaeth bwysig, a bydd yn eich helpu i ddeall y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i chi a chost y gwasanaeth yna. Cofiwch ei darllen a holwch am unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon hefyd i benderfynu a yw'r gwasanaeth y mae ffyrm yn ei gynnig yn briodol i chi ac i'ch helpu i siopa o gwmpas i ddod o hyd i'r ffyrm y byddwch am ddelio â hi.

Bydd gwybodaeth allweddol a gewch yn cynnwys:

- manylion am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig, gan gynnwys a yw'r ffyrm yn rhoi cyngor ariannol neu beidio; a
- gwybodaeth am gost y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig – gweler tudalen 7.

Gwybodaeth am gynhyrchion morgais, yswiriant cyffredinol a buddsoddi sy'n cael eu hargymell

Ar ôl i gynghorydd drafod eich nodau personol ac argymell cynnyrch i chi, cewch wybodaeth am y cynnyrch yn ysgrifenedig.

Mae'r wybodaeth ysgrifenedig hon yn bwysig - bydd yn dweud wrthych yr hyn mae angen i chi ei wybod i'ch helpu i benderfynu mynd ymlaen â'r cynnyrch y mae'r cynghorydd wedi ei argymell neu beidio.

Cymerwch amser i ddarllen y dogfennau a gewch am gynnyrch sy'n cael ei argymell, a gwnewch yn siwr eich bod yn fodlon fod y cynnyrch yn addas i chi cyn gwneud unrhyw ymrwymiad.

Defnyddiwch yr wybodaeth a gewch i siopa o gwmpas am y fargen orau i chi.

Morgeisi

Cyn gwneud cais am forgais, neu os byddwch yn gofyn am ddyfynbris ysgrifenedig, cewch ddogfen o'r enw keyfacts® **about this mortgage**. Mae'n crynhoi nodweddion pwysicaf a chostau'r morgais mewn ffordd safonol er mwyn i chi allu cymharu morgeisi gan wahanol fenthycwyr. Mynnwch gopi o'n harweiniad **Mortgages** i gael mwy o wybodaeth am ffioedd, costau a nodweddion morgeisi – gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

Yswiriant cyffredinol

Ar ôl i chi drafod yr yswiriant mae arnoch ei angen ac ateb yr holl gwestiynau amdanoch chi a'r hyn rydych chi am ei yswirio, bydd y brocer yswiriant yn cynnig polisi i chi gan esbonio'r hyn mae'n ei gwmpasu.

Rhaid i'r brocer roi'r wybodaeth mae arnoch ei hangen i benderfynu a ydych am fanteisio ar y polisi yswiriant hwn neu beidio. Cofiwch ei darllen a holwch am unrhyw beth nad ydych yn ei deall. Gallai camddealltwriaeth olygu bod cwmni yswiriant yn gwrthod talu os byddwch yn gwneud hawliad.

Gan ddibynnu ar y polisi, bydd yr wybodaeth y gallwch ddisgwyl ei chael yn cynnwys:

- yn union beth y mae'r polisi yswiriant yn ei gwmpasu;
- beth nad yw'n ei gwmpasu (yr eithriadau);
- unrhyw derfynau neu gyfyngiadau; a
- nodweddion pwysig eraill y mae angen i chi wybod amdanyn nhw cyn penderfynu.

Gwybodaeth allweddol y mae'n rhaid i gynghorydd ei rhoi i chi

Buddsoddiadau

Pan fydd cynghorydd yn argymell cynhyrchion penodol, bydd yn rhoi **Dogfen Nodweddion Allweddol** i chi, neu, yn achos rhai buddsoddiadau, bydd yn rhoi **Prosbectws wedi'i Symleiddio** i chi sy'n debyg.

Mae'r Ddogfen Nodweddion Allweddol yn rhoi manylion am y cynnyrch, a dylai ateb cwestiynau am:

- nod y buddsoddiad;
- eich ymrwymiad;
- sut y bydd eich taliadau'n cael eu buddsoddi;
- y prif risgiau;
- y sefyllfa o ran treth.

Bydd y cynghorydd yn dweud wrthych chi hefyd am y ffioedd a'r taliadau sy'n cael eu codi, a sut y byddant yn effeithio ar eich buddsoddiad.

Pwyntiau allweddol

- Defnyddiwch yr wybodaeth a gewch am ffyrm i gymharu ffyrmiau a dewis yr un sy'n briodol i chi.
- Darllenwch yr wybodaeth am gynhyrchion sy'n cael eu hargymell i sicrhau bod y cynnyrch yn briodol i chi.
- Mynnwch ofyn cwestiynau am unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

Atebion i'ch cwestiynau

Cwestiwn

Sut alla i ddarganfod beth mae'r llythrennau ar ôl enw fy nghynghorydd ariannol yn ei olygu?

Ateb

Gall Cynghorwyr Ariannol Annibynnol (IFAs) lwyddo mewn arholiadau sy'n ymwneud ag ystod helaeth o bynciau. I'ch helpu i ddeall pa gymwysterau sydd gan eich cynghorydd, gweler y rhestr ar wefan IFA Promotions – gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

Cwestiwn

Alla i drafod cost cyngor gyda ffyrm?

Ateb

Gallwch, gallwch ofyn a fydd ffyrm yn fodlon trafod ynglŷn â'i thaliadau, ffi neu gomisiwn neu beidio. I'ch helpu i drafod, chwiliwch o gwmpas i gymharu'r taliadau rhwng ffyrmiau gwahanol.

Atebion i'ch cwestiynau

Cwestiwn

Faint o wybodaeth bersonol y mae'n rhaid i mi ei rhoi i gynghorydd ariannol?

Ateb

Er mwyn helpu cynghorydd i roi cyngor ariannol da i chi, bydd angen i chi roi rhywfaint o wybodaeth bersonol fanwl a bod yn fodlon ateb ei gwestiynau. Ond holwch sut y bydd yn defnyddio'r wybodaeth honno – er enghraifft, a yw'n bwriadu ei defnyddio at ddibenion marchnata – a gwnewch yn siwr eich bod yn fodlon ar yr ateb. Efallai y byddwch am holi'r ffyrm am ei pholisi diogelu data hefyd.

Cwestiwn

Rwyf wedi penderfynu nad oes arna i angen cyngor ariannol. Sut alla i gael gwybod am wahanol forgeisi?

Ateb

Bydd angen i chi wneud eich ymchwil eich hun i'ch helpu i ddewis.

I gael gwybodaeth am y mathau o forgais sydd ar gael, darllenwch ein canllaw ar **Morgeisi**. Gallwch hefyd ddefnyddio ein tablau morgais diduedd yn yr adran **Cymharu cynhyrchion** ar ein gwefan Moneymadeclear i'ch helpu i gymharu nodweddion, costau a chyfraddau morgais.

Ond cofiwch, os na chymerwch chi gyngor ac os bydd y morgais yn anaddas yn y pen draw, bydd gennych lai o sail dros gwyno.

Y camau nesaf

Cam 1

Ystyriwch ai cyngor ariannol neu wybodaeth gyffredinol y mae arnoch ei heisiau. Cofiwch, 'cyngor ariannol' yw pan fydd cynghorydd proffesiynol yn asesu'ch sefyllfa bersonol ac yn argymell cynhyrchion i ateb eich gofynion.

Cam 2

Gwnewch yn siwr bob amser eich bod yn delio â ffyrm sy'n cael ei rheoleiddio gennym ni. Gallwch gael gwybod yn yr adran **Gwiriwch y Gofrestr** ar ein gwefan Moneymadeclear neu drwy ffonio ein Llinell Gymorth i Ddefnyddwyr – gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

Cam 3

Byddwch yn glir beth yw eich nodau ariannol cyn i chi gwrdd â chynghorydd. Defnyddiwch ein **Gwiriad iechyd ariannol** i'ch helpu – gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

Cam 4

Darllenwch unrhyw wybodaeth a roir i chi am y ffyrm a'r cynhyrchion mae'n eu hargymell a holwch am unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

Defnyddiwch yr wybodaeth hon i siopa o gwmpas i gael y cynghorydd gorau a'r fargen briodol i chi.

Cadwch eich gwaith papur yn ddiogel – efallai y bydd angen i chi gyfeirio ato'n ddiweddarach.

Os bydd pethau'n mynd o chwith

Cwynion

Os bydd pethau'n mynd o chwith, dylech gysylltu yn gyntaf â'r ffyrm yr oeddech yn ddelio â hi. Mae ganddi weithdrefn i'w dilyn wrth ddelio â chwynion.

Os na fyddwch yn fodlon â'u hateb, efallai y gallwch fynd â'ch cwyn at y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol. Dylai'r ffyrm roi manylion i chi am y gwasanaeth di-dâl hwn – gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

Iawndal

Os bydd ffyrm sy'n cael ei rheoleiddio yn methu neu'n debygol o fethu â thalu hawliadau yn ei herbyn, mae'n bosibl y gallwch gael iawndal dan y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Mae terfynau i faint o iawndal y gall ei dalu yn ôl y math o hawliad. Mae'r gwasanaeth yn ddi-dâl i gwsmeriaid – gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

Am fwy o wybodaeth, darllenwch gopi o'n canllaw **Gwneud cwyn** – gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

Amddiffyn eich hun

Mae twyllo'n digwydd ar lawer ffurf. Hyd yn oed os nad ydych yn credu y gallwch chi byth gael eich twyllo, daliwch ati i amau cynigion sy'n edrych yn rhy dda i fod yn wir – cofiwch eu bod nhw fel rheol.

Peidiwch â theimlo dan bwysau i brynu dim yn y fan a'r lle, a pheidiwch â llofnodi ffurflenni gwag i'w llenwi'n ddiweddarach.

I gael gwybodaeth am y gwahanol fathau o dwyllo, gweler y canllaw ar-lein **Staying safe against scams** ar ein gwefan Moneymadeclear – gweler *Cysylltiadau defnyddiol*.

Esbonio'r jargon

Esboniad o rai geiriau ac ymadroddion allweddol.

Amrywio
Ehangu'ch buddsoddiadau dros wahanol asesiadau, neu amrywiol fuddsoddiadau o fewn math o ased.

APR
Cyfradd Ganrannol Flynyddol – mae hon yn dangos cost gyffredinol benthyciad, gan gymryd i ystyriaeth y cyfnod, y gyfradd llog a chostau eraill.

Benthyciad sicr
Os bydd benthyciad yn cael ei 'sicrhau' yn erbyn eich cartref neu ryw ased arall, mae'n golygu, os byddwch yn methu â'i ad-dalu, y gall y benthyciwr werthu'ch cartref neu ased arall i gael ei arian yn ôl.

Blwydd-dal bywyd
Mae blwydd-dal bywyd yn troi arian o'ch cronfa bensiwn yn incwm pensiwn sy'n cael ei drethu. Mae yna wahanol fathau yn ôl eich amgylchiadau chi.

Blwyddyn dreth
6 Ebrill mewn un flwyddyn tan 5 Ebrill y flwyddyn ddilynol.

Buddsoddiadau cyd-ranedig
Ffordd i roi cyfraniadau o amrywiol symiau gan nifer o bobl mewn un gronfa fuddsoddi. Mae yna wahanol fathau, ac maen nhw'n gweithio mewn gwahanol fyrdd.

Cyfalaf (ar gyfer buddsoddiadau a morgeisi)
Pan fyddwch yn buddsoddi, cyfanswm yr arian sy'n cael ei fuddsoddi. Pan fyddwch yn cael morgais, y swm fyddwch yn ei fenthyg.

Cyfnod rhybudd ar gyfer cyfrifon cadw
Nifer penodedig o ddyddiau cyn y gallwch godi arian yn ddi-dâl o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu – mae 30, 60 neu 90 o ddyddiau'n gyfnodau rhybudd cyffredin.

Cyfradd sefydlog
Cyfradd llog sy'n sefydlog (mewn geiriau eraill, nid yw'n symud i fyny nac i lawr) am gyfnod penodedig.

Cyfranddaliadau
Rhan neu gyfranddaliad mewn cwmni.

Cyfrif Cynilion Unigol (ISA)
Ffordd effeithlon o safbwynt treth i gynilo neu fuddsoddi gyda therfynau ar faint y gallwch ei dalu ym mhob blwyddyn dreth.

Cynghorwyr ariannol annibynnol (IFAs)
Cynghorwyr sy'n cynnig cynhyrchion o'r farchnad gyfan ac yn cynnig taliad drwy ffi.

Cynllun cyd-fuddsoddi
Ffordd i gyd-rannu arian gan nifer o bobl yn un gronfa fuddsoddi.

Ecwitïau
Enw arall am gyfranddaliadau mewn cwmni.

Ffi Trefnu
Ffi ymrwymo neu weinyddu rydych fel rheol yn ei thalu i'r benthyciwr i roi'r arian morgais wrth gefn.

Llog
Tâl am fenthyg arian, neu wobr am gynilo arian. Fel rheol caiff ei ddangos fel canran o'r swm sy'n cael ei fenthyg neu ei gynilo.

Morgais ad-dalu
Morgais lle byddwch yn ad-dalu swm y benthyciad (cyfalaf) a'r llog ar yr un pryd.

Morgais ail daliad
Ail fenthyciad sy'n cael ei sicrhau ar eich eiddo yn ychwanegol at eich morgais cyntaf.

Morgais llog-yn-unig
Morgais lle byddwch yn talu'r taliadau llog yn unig ar y benthyciad bob mis. Ni fyddwch yn lleihau swm y benthyciad (y cyfalaf), a rhaid i chi dalu hyn mewn rhyw ffordd arall.

Premiwm
Y swm y bydd eich yswiriwr yn gofyn i chi ei dalu am yswiriant.

Trefnlen am gynnwys yswiriant
Manylion penodol yr hyn sy'n cael ei gynnwys a'r hyn sy'n cael ei eithrio o dan bolisi yswiriant.

Twf cyfalaf
Pan fyddwch yn buddsoddi'ch arian, cynnydd yn y swm gwreiddiol a gafodd ei fuddsoddi ar ôl taliadau a didyniadau eraill. Mae hyn yn wahanol i fuddsoddi i gael incwm.

Ymddiriedolaethau buddsoddi
Buddsoddiad wedi ei gronni. Byddwch yn prynu cyfranddaliadau mewn cwmni sy'n buddsoddi mewn buddsoddiadau eraill. Mae ganddo gyfranddaliadau ac mae wedi ei restru yn y gyfnewidfa stociau. Cronfa pen-caeedig yw am fod nifer y cyfranddaliadau sydd ar gael yn sefydlog.

Ymddiriedolaethau unedol
Buddsoddiad cyd-ranedig, sy'n fuddsoddiad penagored sy'n cynyddu wrth i fwy o bobl fuddsoddi ac yn lleihau pan fyddan nhw'n cymryd eu harian allan.

Yswiriant bywyd yn cael ei gefnogi gan fuddsoddiad
Yswiriant bywyd sydd â dwy swyddogaeth: eich amddiffyn, a bod yn fuddsoddiad. Mae'r rhain yn cynnwys yswiriant **bywyd cyfan**, bondiau **gydag elw**, bondiau **incwm a thwf**, polisïau **gwaddol** a chynlluniau **Buddsoddiad Uchaf**.

Yswiriant diogelu taliadau (neu yswiriant damwain, salwch a diweithdra)
Contract yswiriant sy'n talu swm rheolaidd i dalu am gostau penodol fel ad-dalu benthyciad (er bod rhai'n talu biliau hefyd) am gyfnod cyfyngedig – blwyddyn, dyweder – os byddwch yn methu gweithio am resymau iechyd neu oherwydd diswyddo.

Cysylltiadau defnyddiol

Gall cyfraddau galwadau amrywio – holwch eich darparwr ffôn am eu prisiau.

I archebu canllawiau eraill MONEYmadeclear™, edrychwch ar ein Cofrestr, i roi gwybod am hyrwyddo ariannol camarweiniol, neu i gael gwybodaeth neu arweiniad cyffredinol

Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (Financial Services Authority (FSA))
Llinell Gymorth i Ddefnyddwyr:
0845 606 1234
Minicom/Ffôn testun: 08457 300 104
www.moneymadeclear.fsa.gov.uk

Canllawiau eraill MONEYmadeclear™

- Gwneud cwyn
- Mortgages
- Pensions
- Proving your identity
- Saving and investing

Ar ein gwefan MONEYmadeclear™ cewch

- **Dablau i'ch helpu** i gymharu morgeisi, pensiynau a chyfrifon cynilo.
- **Gwirydd ariannol** i'ch helpu i nodi'ch anghenion ariannol.
- **Cyfrifydd pensiwn** i weld faint o incwm y gallech ei gael pan fyddwch yn ymddeol – o'r hyn rydych yn ei gynilo nawr neu yn y dyfodol.
- **Cyfrifydd morgeisi** i'ch helpu i amcangyfrif eich taliad morgais misol.

Ewch i **www.moneymadeclear.fsa.gov.uk** a chliciwch ar **Useful tools**.

- Gwybodaeth am yswiriant. www.moneymadeclear.fsa.gov.uk/products_explained/insurance.html

Dod o hyd i gynghorwyr/cynllunwyr ariannol

IFA Promotion
0800 085 3250 (rhadffôn)
www.unbiased.co.uk

Yn darparu rhestr o wyth cynghorydd ariannol annibynnol yn eich ardal.

Y Sefydliad Cynllunio Ariannol (Institute of Financial Planning)
0117 945 2470
www.financialplanning.org.uk

Am gymorth i gynllunio'ch arian.

MyLocalAdviser
www.mylocaladviser.co.uk

Ar-lein yn unig – dim rhif ffôn.
I gael cynghorydd morgeisi, yswiriant neu fuddsoddiadau yn eich ardal.

Y Gymdeithas Cyllid Personol (The Personal Finance Society)
www.thepfs.org/findanadviser

Yn darparu rhestr o hyd at chwe aelod o PFS.

Brokerfinder
www.brokerfinder.co.uk

I chwilio am frocer morgeisi.

Gwasanaeth Ymchwil i Fuddsoddi'n Foesegol (Ethical Investment Research Service)
www.eiris.org

Gwybodaeth am ddarparwyr cynhyrchion a ffynonellau eraill sy'n darparu buddsoddiadau, morgeisi neu yswiriant moesegol.

Sefydliad y Broceriaid Yswiriant (Institute of Insurance Brokers (IIB))
Higham Business Centre
Midland Road
Higham Ferrers
Northamptonshire NN10 8DW
01933 410 003

I ddod o hyd i frocer yswiriant.

Cymdeithasau masnach sy'n darparu gwybodaeth am gynhyrchion a gwasanaethau ariannol

Cymdeithas y Rheolwyr Buddsoddiadau Cleient Preifat a'r Broceriaid Stoc (Association of Private Client Investment Managers & Stockbrokers (APCIMS))
114 Middlesex Street
London E1 7JH
020 7247 7080
www.apcims.co.uk

Yn darparu cyfeiriadur am ddim o'r broceriaid stoc a'r rheolwyr buddsoddiadau sy'n aelodau yn y DU, Ynysoedd y Sianel a Gweriniaeth Iwerddon, neu gallwch chwilio ar eu gwefan.

Cymdeithas Yswirwyr Prydain (Association of British Insurers)
www.abi.org.uk

Yn cynhyrchu cyfres o ddalenni gwybodaeth am ddim ar gyfer defnyddwyr, sy'n ymdrin ag yswiriant bywyd; pensiynau; ac yswiriant moduro, cartref, teithio a meddygol.

Cymdeithas Cwmnïau Ymddiriedolaeth Fuddsoddi (Association of Investment Trust Companies (AITC))
9th Floor
24 Chiswell Street
London EC1Y 4YY
Linell archebu: 0800 085 8520
www.itsonline.co.uk

Yn cynhyrchu amrediad o daflenni a ffeithlenni am ddim sy'n esbonio ymddiriedolaethau buddsoddi a sut i'w defnyddio i gynllunio'n ariannol.

Y Bwrdd Safonau Cod Bancio (The Banking Code Standards Board (BCSB))
Level 12
City Tower
40 Basinghall Street
London EC2V 5DE
0845 230 9694
E-bost: helpline@bcsb.org.uk
www.bankingcode.org.uk

Am wybodaeth am reoleiddio bancio.

Cymdeithas y Broceriaid Yswiriant Prydeinig (British Insurance Brokers Association (BIBA))
14 Bevis Marks
London EC3A 7NT
0901 814 0015
www.biba.org.uk

I gael rhestr o froceriaid yn eich ardal chi a'r yswiriant rydych yn chwilio amdano.

Cyngor y Benthycwyr Morgais (Council of Mortgage Lenders (CML))
020 7438 8956
www.cml.org.uk

Yn cynhyrchu ffeithlenni a thaflenni am ddim am forgeisi, prynu-i-osod a rhyddhau ecwiti.

Cymdeithas Rheoli Buddsoddiadau (Investment Management Association (IMA))
65 Kingsway
London WC2B 6TD
Llinell archebu pecynnau gwybodaeth
020 7269 4639
www.investmentfunds.org.uk

Yn cynhyrchu ffeithlenni am ddim am amrywiaeth o bynciau gan gynnwys ISAs, ymddiriedolaethau a chronfeydd buddsoddi.

Cyrff eraill sy'n gallu eich helpu

Cwynion ac iawndal

Y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol (Financial Ombudsman Service)
South Quay Plaza
183 Marsh Wall
London E14 9SR
0845 080 1800
www.financial-ombudsman.org.uk

Datrys cwynion.

Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (Financial Services Compensation Scheme)
7th Floor, Lloyds Chambers
Portsoken Street
London E1 8BN
020 7892 7300
www.fscs.org.uk

Am gymorth os bydd ffyrm sy'n cael ei rheoleiddio gan FSA yn mynd allan o fusnes.

Y Rheoleiddiwr Pensiynau (The Pensions Regulator)

Napier House
Trafalgar Place
Brighton BN1 4DW
0870 6063636
www.thepensionsregulator.gov.uk

I gael gwybodaeth am gynlluniau pensiwn galwedigaethol.

Dim gwerthu.
Dim jargon.
Dim ond y ffeithiau am gael cyngor ariannol.

MONEYmadeclear™